## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A44 (CAPEL BANGOR I FLAENGEUFFORDD, CEREDIGION) (TERFYN CYFLYMDER 40 MYA A THERFYN CYFLYMDER 20 MYA RHAN-AMSER) 2021

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 84(1)(a), (1)(c), (1A), (2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, sy'n dod i rym ar 29 Mawrth 2021.

Effaith y Gorchymyn yw cyflwyno terfyn cyflymder 20 mya rhan-amser ar y darn o gefnffordd yr A44 yng Nghapel Bangor, Ceredigion sy'n ymestyn o bwynt 216 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sy'n arwain at Ysgol Gynradd Penllwyn hyd at bwynt 206 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y gyffordd honno. Bydd y terfyn cyflymder 20 mya yn gymwys am gyfnodau cyfyngedig o'r dydd yn ystod y tymor ysgol pan fydd arwyddion traffig yn dangos hynny. Mae angen y terfyn cyflymder 20 mya yn ystod y cyfnodau hyn er mwyn gostwng cyflymder traffig a hybu diogelwch cerddwyr ger yr ysgol.

Caiff terfyn cyflymder 40 mya ei gyflwyno hefyd ar y darn o gefnffordd yr A44 rhwng Capel Bangor a Blaengeuffordd, Ceredigion sy'n ymestyn o bwynt 1.64 cilomedr i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sy'n arwain at Ysgol Gynradd Penllwyn, Capel Bangor hyd at bwynt 752 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y gyffordd honno. Bydd y terfyn cyflymder 40 mya yn estyn y terfyn cyflymder 40 mya presennol a osodwyd yn rhinwedd Gorchymyn Cefnffordd (Capel Bangor, Ceredigion) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 1975 (O.S. 1975/1497).

Mae Gorchymyn Cefnffordd (Capel Bangor, Ceredigion) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 1975 wedi'i ddirymu gan y Gorchymyn newydd a bydd y darn perthnasol o'r gefnffordd a reoleiddiwyd yn flaenorol gan y Gorchymyn hwnnw yn parhau i fod yn ddarostyngedig i derfyn cyflymder 40 mya yn rhinwedd y Gorchymyn newydd.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 24 Mawrth 2021 ymlaen, gellir gweld copi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn a wnaed a'r plan ar wefan Llywodraeth Cymru yn https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1428350.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A44 TRUNK ROAD (CAPEL BANGOR TO BLAENGEUFFORDD, CEREDIGION) (40 MPH & PART-TIME 20 MPH SPEED LIMITS) ORDER 2021

The Welsh Ministers have made an Order in exercise of their powers under sections 84(1)(a), (1)(c), (1A), (2) and 124(1)(d) of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 29 March 2021.

The effect of the Order is to introduce a part-time 20 mph speed limit on the length of the A44 trunk road at Capel Bangor, Ceredigion that extends from a point 216 metres east of the centre-point of its junction with the road leading to Ysgol Gynradd Penllwyn to a point 206 metres west of the centre-point of that junction. The 20 mph speed limit will apply for limited periods of the day during school term time when indicated by traffic signs. The 20 mph speed limit during these periods is needed to reduce the speed of traffic and promote pedestrian safety near the school.

A 40 mph speed limit will also be introduced on the length of the A44 trunk road between Capel Bangor and Blaengeuffordd, Ceredigion that extends from a point 1.64 kilometres east of the centre-point of its junction with the road leading to Ysgol Gynradd Penllwyn, Capel Bangor to a point 752 metres west of the centre-point of that junction. The 40 mph speed limit will extend the current 40 mph speed limit, imposed by virtue of the Trunk Road (Capel Bangor, Ceredigion) (40 mph Speed Limit) Order 1975 (S.I. 1975/1497).

The Trunk Road (Capel Bangor, Ceredigion) (40 mph Speed Limit) Order 1975 is revoked by the new Order and the relevant length of trunk road previously regulated by that Order will continue to be subject to a 40 mph speed limit by virtue of the new Order.

During a period of 6 weeks from 24 March 2021, a copy of this Notice, the made Order and plan can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1428350.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government